# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 8 Gorffennaf, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd H.M. Payne (Is-gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, S. Campbell, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson a N.B. Marshallsea.

Aelodau Cyfetholedig: M. Price (Eglwys Gatholig Rufeinig), G. Scott (Addysg Gymraeg), E. Woodfield a I. Da Silva (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) a C.P. Franks.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.J. Haines.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd E. Goodjohn ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 5 – Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol: Perfformiad Chwarter 4 2023/24. Datganodd y Cynghorydd Goodjohn fuddiant personol sef ei fod yn fyfyriwr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro am y cyfnod yr oedd yr adroddiad yn ymwneud ag ef. Roedd natur y buddiant yn golygu bod y Cynghorydd Goodjohn yn aros yn y cyfarfod am gyfnod yr eitem.

Gwnaeth y Cynghorydd W.A. Hennessy ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem Rhif 4 ar y Rhaglen – Adroddiad Blynyddol Llyfrgelloedd. Datganodd y Cynghorydd Hennessy fuddiant oedd yn rhagfarnu sef ei fod yn Ymddiriedolwr Llyfrgell y Rhws ac felly gadawodd y cyfarfod am gyfnod yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd C.P. Franks, nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor, ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem Rhif 4 ar y Rhaglen – Adroddiad Blynyddol Llyfrgelloedd. Datganodd y Cynghorydd Franks fuddiant sy'n rhagfarnu sef ei fod yn Ymddiriedolwr Llyfrgell Dinas Powys a'i fod wedi cael gollyngiad i siarad ar faterion o'r fath.

EITEM AGENDA 3. CYFLWYNIAD – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y CWRICWLWM CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG – CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE –

ARGYMHELLWYD – BOD diolchiadau'r Pwyllgor yn cael eu trosglwyddo i'r ysgolion am eu cyflwyniadau fideo a nodi cynnwys y cyflwyniad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYFRGELLOEDD (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI cynnwys Adroddiad Blynyddol y Llyfrgelloedd a'r cynnydd a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y gwasanaeth yn ystod y cyfnod.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cabinet yn goruchwylio perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell a'i effaith yn ystod y cyfnod ac yn cymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a dderbynnir gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2023/24 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 fel y'u haliniwyd yn Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Bod sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.